Archwilio Cymru
Audit Wales

# Heriau recriwtio a chadw – y bobl iawn ar yr adeg iawn?

Cyngor Sir Ddinbych

Mehefin 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn i'w gyflwyno o dan y dyletswyddau canlynol:

- adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol fod yn fodlon (neu ddim) bod y Cyngor wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian yn y defnydd o'i adnoddau; ac
- adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, mae'n rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac mae'n rhaid nad yw mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ailddefnyddio.

## Os byddwch angen unrhyw gymorth gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os byddwch angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith amgen:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddir gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio/International Organization of Supreme Audit Institutions (INTOSAI).

# Cynnwys


Ciplun archwiliad 4

Ein canfyddiadau 5

Argymhellion 11

Atodiadau 12

1 Ynglŷn â’n gwaith 13

2 Amdanom ni 15

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom edrych arno

1 Fe wnaethom edrych ar yr heriau recriwtio a chadw y mae Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) yn eu hwynebu. Gan gynnwys pa mor dda mae'r Cyngor yn deall ei heriau, yr hyn y mae'n ei wneud mewn ymateb, a sut mae'n adolygu gwerth am arian ei ddulliau.

## Pam mae hyn yn bwysig

2 Mae bod â'r gweithlu iawn yn ei le yn hanfodol i Gyngor ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar ei gymunedau ac i gyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol. I wneud hyn, mae angen i'r Cyngor gyflogi'r nifer gywir o gyflogeion, â'r sgiliau cywir, ar yr adeg gywir.

3 Defnyddir y rhan fwyaf o wariant y Cyngor o ddydd i ddydd i dalu am ei weithlu.

4 Fodd bynnag, mae'n wynebu nifer o heriau i recriwtio a chadw pobl i ddarparu ei wasanaethau.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

5 Canfuwyd gennym fod gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i heriau recriwtio a chadw a'i fod yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau i fynd i'r afael â nhw. Ond nid yw'n asesu gwerth am arian y dulliau hynny yn gyffredinol.

## Yr hyn a argymhellir gennym

6 Rydym yn gwneud un argymhelliad sy'n ymwneud â'r Cyngor yn gwneud yn siŵr ei fod yn asesu gwerth am arian ei holl brif ddulliau o recriwtio a chadw.

# Ein canfyddiadau

## Deall yr heriau

### Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth eglur o'i heriau recriwtio a chadw

7 Mae'r Cyngor wedi nodi pa swyddi sy'n anodd eu llenwi a'r rhesymau sylfaenol. Mae gwasanaethau yn esbonio problemau recriwtio a chadw mewn cynlluniau gweithlu, ar gofrestrau risg, ac yn rhan o'r Broses Herio Gwasanaethau. Mae canfyddiadau lefel gwasanaeth yn cael eu cydgrynhoi mewn dogfennau lefel gorfforaethol. Mae gan y Cyngor banel rheoli recriwtio sy'n adolygu pob swydd wag. Mae'r panel yn trafod, yn herio ac mae ganddo drosolwg o'r holl swyddi gwag.

8 Trwy ddeall pa swyddi sy'n anodd eu llenwi a pham, mae'r Cyngor yn lleihau'r risg o roi adnoddau ar waith yn y lle anghywir.

9 Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth eglur o sut mae'n defnyddio dulliau rheoli'r gweithlu fel taliadau atodol ar sail y farchnad, contractau cyfnod penodol, gweithwyr asiantaeth, a rhewi recriwtio i helpu i greu gweithlu cynaliadwy. Mae Polisi Recriwtio'r Cyngor yn esbonio'n eglur pob math o swyddi y mae'n eu defnyddio ac yn amlygu'r angen i adolygu unrhyw gyfleoedd a ddarperir pan fydd swydd wag yn codi. Fe'i cefnogir hefyd gan bolisïau unigol ar y defnydd o gontractau tymor penodol a gweithwyr asiantaeth.

10 Nid yw'r Cyngor wedi rhewi recriwtio ar hyn o bryd, ond mae'n herio unrhyw swydd wag trwy ei banel rheoli recriwtio. Mae ganddo bolisi hefyd ar gyfer ei ddefnydd o daliadau atodol ar sail y farchnad a gefnogir gan broses eglur ar gyfer cymeradwyo ac adolygu. Mae'r cyngor yn cydnabod bod taliadau atodol ar sail y farchnad yn ateb byrdymor ac nid yw'n eu defnyddio'n eang.

11 Trwy ddeall defnydd ac effaith y gwahanol ddulliau rheoli'r gweithlu hyn, mae'r Cyngor yn lleihau'r perygl o niweidio diwylliant ac ysbryd. Mae hyn wedyn yn lleihau'r perygl na fydd yn gallu denu a chadw'r bobl sydd eu hangen arno i gyflawni ei amcanion a darparu ei wasanaethau mewn ffyrdd sy'n sicrhau gwerth am arian.

12 Mae'r Cyngor yn casglu ac yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth am ei weithlu i ddeall ei heriau recriwtio a chadw yn y presennol a'r dyfodol. Mae cynlluniau gweithlu lefel gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth am y sefyllfa bresennol ac ar newidiadau posibl yn y dyfodol a allai effeithio ar y gweithlu. Cefnogir y cynlluniau hyn gan ddata gan y tîm adnoddau dynol i hysbysu trafodaeth rhwng Penaethiaid Gwasanaethau a Phartneriaid Busnes Adnoddau Dynol (HRBPs). Mae'r Broses Herio Gwasanaethau yn edrych ar ddadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau a chynlluniau gweithlu lefel gwasanaeth i hysbysu trafodaethau am heriau. Mae'r tîm adnoddau dynol hefyd yn darparu data misol drwy ei ddangosfwrdd gweithlu.

13 Trwy fod â gwybodaeth i ddeall ei heriau gweithlu, mae'r Cyngor yn lleihau'r perygl o fethu cyfleoedd i atal heriau rhag digwydd neu waethygu. Mae hefyd yn lleihau'r perygl o ddylunio atebion byrdymor nad ydynt yn cynnig gwerth am arian dros y tymor hwy.

# Mynd i'r afael â'r heriau

## Mae'r Cyngor yn cymryd amrywiaeth eang o gamau i ymateb i'w heriau recriwtio a chadw

14 Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o gamau i fynd i'r afael â'i heriau recriwtio a chadw a sefydlu ei hun fel cyflogwr delfrydol. Mae camau'r Cyngor ar gyfer denu a chadw staff yn cynnwys:

- cynnig amrywiaeth o fuddion y mae'n eu cyflwyno'n eglur mewn llyfryn ar-lein;
- darparu nifer o bolisïau cefnogol sy'n galluogi cyflogeion i reoli eu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith;
- darparu Polisi Dysgu a Datblygu (L&D), wedi'i gefnogi ag adnoddau ar-lein ac arbenigwr L&D;
- adolygu ei ffurflenni cais, ei ddisgrifiadau swydd, a'i dudalennau gwe recriwtio;
- cyflwyno llwybrau gyrfaol a rhaglenni prentisiaeth i fynd i'r afael â phroblemau recriwtio a chadw mewn meysydd gwasanaeth penodol;
- cynnal ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu ar gyfer swyddi anodd eu llenwi penodol;
- dadansoddi'r rhwystrau i recriwtio a chadw mewn gwasanaethau trwy gynllunio'r gweithlu; a
- darparu hyfforddiant i reolwyr ar amrywiaeth, wedi'i gefnogi gan adnoddau ar Recriwtio Mwy Diogel a Chydraddoldebau, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

15 Trwy gymryd y camau hyn, mae'r Cyngor yn cynyddu'r tebygolrwydd o allu recriwtio a chadw gweithlu brwdfrydig trwy fod yn gyflogwr delfrydol. Fodd bynnag, er bod y Cyngor yn cymryd camau, mae rhai gwasanaethau yn dal i wynebu heriau recriwtio a chadw penodol fel cynnal a chadw'r fflyd, cyfreithiol, a gofal cymdeithasol.

16 Mae'r Cyngor yn cynnwys ei staff a'u cynrychiolwyr yn y gwaith o adolygu ei heriau recriwtio a chadw i nodi ffyrdd y gall y Cyngor wella sut mae'n recriwtio ac yn cadw pobl. Er enghraifft:

- mae HRBPs yn cyd-fynd â gwasanaethau ac yn mynychu cyfarfodydd adrannol ynghyd ag arbenigwyr recriwtio;
- mae ei Fforwm Cyngor Staff a'r Grŵp Ymgynghori ar Gysylltiadau Cyflogeion yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod problemau, gan gynnwys heriau recriwtio a chadw;
- cynigir cyfweliadau ymadael i staff sy'n gadael y Cyngor, ond mae cyfraddau cwblhau yn isel;
- mae gan ei wasanaeth gofal cymdeithasol gynllun gweithredu i fynd i'r afael â heriau recriwtio sy'n cynnwys amrywiaeth eang o ffyrdd i gynnwys staff; ac
- mae ei wasanaeth gofal cymdeithasol hefyd wedi defnyddio "Arolwg Aros" i ddeall pam mae pobl yn aros yn eu swyddi.

17 Trwy gynnwys ei gyflogeion, mae'r Cyngor yn fwy tebygol o nodi atebion i'w heriau recriwtio a chadw.

18 Mae gan arweinwyr uwch y Cyngor drosolwg o heriau recriwtio a chadw drwy sawl ffordd. Er enghraifft, mae Hunanasesiad, Bwrdd Perfformiad Cyngor sy'n Gweithredu'n Effeithiol, a Phroses Herio Gwasanaethau'r Cyngor i gyd wedi ystyried heriau recriwtio a chadw ac wedi cynnig camau i fynd i'r afael â nhw. Mae heriau recriwtio a chadw a chamau i fynd i'r afael â nhw hefyd yn cael eu nodi ar ei gofrestrau risg sy'n helpu arweinwyr uwch i fod â throsolwg ohonynt.

19 Trwy sicrhau bod arweinwyr uwch yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt, mae'r Cyngor yn helpu i sicrhau eu bod yn ymwybodol o heriau recriwtio a chadw ac yn gallu cymryd camau i fynd i'r afael â nhw.

20 Mae'r Cyngor yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i fynd i'r afael â'i heriau recriwtio a chadw. Er enghraifft, mae wedi gweithio gyda cholegau a phrifysgolion i ddarparu hyfforddiant. Mae'r Cyngor hefyd wedi archwilio swyddi ar y cyd â chynghorau eraill i ymdrin â heriau recriwtio penodol. Trwy weithio â phartneriaid, bydd mwy o gyfleoedd i'r Cyngor rannu adnoddau, arbenigedd, ac arferion da ac mae'n fwy tebygol o fanteisio i'r eithaf ar ei adnoddau i sicrhau gwerth am arian.

21 Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio technoleg i wella ei broses recriwtio a rhyddhau capasiti gweithlu. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn:

- gwella ei wefan i'w gwneud yn haws i bobl ddod o hyd i swyddi ac ymgeisio amdanynt;
- edrych ar ffyrdd o gyflymu prosesau adnoddau dynol fel bod gan staff fwy o amser i weithio ar bethau eraill;
- cyflwyno modiwl newydd i wella'r effeithlonrwydd a'r cyflymder y mae'n cynefino pobl newydd.

22 Trwy wneud defnydd o dechnoleg, mae'r Cyngor yn lleihau'r perygl o fethu cyfleoedd i wella ei brosesau recriwtio, effeithlonrwydd a llesiant staff ac i leihau costau.

# Adolygu gwerth am arian

## Nid yw’r Cyngor yn asesu gwerth am arian ei ddulliau o fynd i’r afael â’i heriau recriwtio a chadw yn gyffredinol

23 Nid yw’r Cyngor yn asesu gwerth am arian ei ddulliau o fynd i’r afael â’i heriau recriwtio a chadw fel mater o drefn. Nid yw chwaith wedi nodi pwy sy’n gyfrifol am asesu hyn. Mae’n adolygu costau gweithgarwch recriwtio ac wedi cymryd camau i leihau gwariant, fel drwy ei banel rheoli recriwtio a’r rheolaeth fewnol o ymgyrchoedd recriwtio ar gyfer swyddogion uwch. Mae’r tîm adnoddau dynol yn defnyddio rhywfaint o ddata i werthuso cost-effeithiolrwydd gweithgarwch recriwtio ac mae ganddo ganllawiau eglur ar y defnydd o hysbysebu y talwyd amdano. Ond nid yw’r Cyngor wedi asesu gwerth am arian ei ddulliau amrywiol o ymateb i’w heriau recriwtio a chadw.

24 Trwy beidio ag asesu gwerth am arian ei ddulliau o recriwtio a chadw nid yw’r Cyngor yn gwybod a ydynt yn ddarbodus, yn effeithlon, neu’n effeithiol.

25 Lle mae’r Cyngor wedi adolygu ei ddulliau o recriwtio a chadw, mae wedi gwneud gwelliannau ac wedi rhannu gwersi. Er enghraifft, fe wnaeth y Cyngor adolygu ei Bolisi a’i brosesau Recriwtio yn 2025. Mae’r Cyngor hefyd wedi cyflwyno gwelliannau fel swyddi gradd yrfaol, y panel rheoli recriwtio, ac ymgyrchoedd recriwtio wedi’u teilwra. Mae’r Cyngor hefyd yn rhannu gwersi a ddysgwyd am ei weithgarwch recriwtio a chadw drwy ei Broses Herio Gwasanaethau.

26 Trwy wneud gwelliannau a rhannu gwersi a ddysgwyd, mae’r Cyngor yn cynyddu’r tebygolrwydd y bydd yn cael gwerth am arian.

# Argymhellion

**A1** Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn asesu gwerth am arian ei brif ddulliau recriwtio a chadw **(paragraffau 23 a 24).**

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom edrych ar yr heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu o ran recriwtio a chadw staff. Roedd hyn yn cynnwys pa mor dda mae'r Cyngor yn deall yr heriau, y camau y mae'n eu cymryd i ymateb i'r heriau hyn, a sut mae'n adolygu gwerth am arian ei ddulliau.

Ni wnaethom edrych ar bwnc ehangach cynllunio'r gweithlu.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Aethom ati i geisio ateb y cwestiynau canlynol:

- A yw'r Cyngor yn deall ei heriau recriwtio a chadw?
- A yw'r Cyngor yn cymryd camau i fynd i'r afael â'i heriau recriwtio a chadw?
- A yw'r Cyngor yn adolygu gwerth am arian ei ddulliau i fynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw?

### Meini prawf

Rydym wedi asesu trefniadau'r Cyngor drwy ateb y cwestiynau archwilio uchod. I'n helpu i wneud hynny, rydym wedi creu cyfres o feini prawf archwilio sy'n esbonio 'sut mae da yn edrych'. Rydym wedi defnyddio'r meini prawf archwilio i'n helpu i ddadansoddi'r dystiolaeth a gasglwyd gennym o'n hadolygiad o dystiolaeth ysgrifenedig a'r cyfweliadau a gynhaliwyd gennym.

Hysbyswyd ein meini prawf archwilio gan gyfuniad o'n gwybodaeth a'n profiad ac ymchwil i'r pwnc hwn. Fe'u hysbyswyd hefyd gan ein sgyrsiau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol.

## Dulliau

Fe wnaethom gyfweld â swyddogion uwch a’r aelod cabinet sy’n gyfrifol am ddatblygu a darparu dull strategol y Cyngor o ymateb i’w heriau recriwtio a chadw.

Fe wnaethom hefyd gyfweld â swyddogion uwch o dri gwasanaeth Cyngor sydd wedi wynebu heriau recriwtio a chadw.

Fe wnaethom hefyd adolygu amrywiaeth o ddogfennau a oedd yn berthnasol i’r cwestiynau archwilio yr oeddem yn ceisio eu hateb.

# 2 Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â rhai cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gynorthwyo, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân â'r swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.